

Galwad am Gerddorion

Mae gan bawb gân i'w chanu ac mae pawb yn haeddu'r cyfle i ddarganfod a rhannu eu cân.

Dyma yw nod prosiect 'Canfod y Gân' gyda'r bwriad o drawsnewid bywydau drwy gerddoriaeth. Rydym yn awyddus i glywed gan gerddorion llawrydd brwdfrydig sy'n eiddgar i gyfrannu at y weledigaeth hon ac at botensial pellgyrhaeddol y prosiect. Gwahoddwn ddatganiadau o ddiddordeb gan ymarferwyr all ddarparu sesiynau cerddoriaeth integredig a chyfleoedd i unigolion (16oed+) gydag anableddau dysgu a rhai sydd heb anableddau adnabod a datblygu eu cryferau a'u ddiddordebau cerddorol eu hunain, ac ar y cyd gydag eraill.

Rhediad y prosiect

Mae Canolfan Gerdd William Mathias (CGWM), mewn partneriaeth â thîm Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd, wedi derbyn nawdd gan Music Challenge Fund mudiad Spirit 2012 (www.spiritof2012.org.uk) er mwyn rhedeg prosiect 'Canfod y Gân' dros dair blynedd. Bydd y prosiect yn dod ag unigolion sydd ag anableddau dysgu ac unigolion sydd heb anableddau dysgu ynghyd i gymryd rhan cyfartal mewn gweithgareddau cerddoriaeth cyson gyda'r nod o wella iechyd meddwl, llesiant ac ymagwedd unigolion a'r gymuned ehangach at anabledd.

O ddiwedd mis Ebrill 2019, bydd tri grwp yn cyfarfod bob pythefnos yn ardal Harlech, Pwllheli a Chaernarfon. Pob chwe mis, bydd y grwpiau yn perfformio'n gyhoeddus unai yn y gymuned neu mewn gwyliau cerddoriaeth lleol a/neu'n genedlaethol. Hoffem glywed gan gerddorion fyddai â diddordeb mewn arwain y grwpiau uchod yn rheolaidd yn ogystal â cherddorion fyddai yn gallu cynnal sesiynau arbenigol achlysurol. Bydd y grwpiau yn dilyn trywydd cerddorol yr aelodau. Rydym yn awyddus i ddarparu ystod eang o brofiadau cerddorol amrywiol a safonol i'r grwpiau, yn ogystal â cyfryngau a dulliau amrywiol.

Hoffem glywed gan unigolion sydd â :

- sgiliau cerddorol cadarn e.e perfformio, byrfyfyrion, cyfansoddi, cyfansoddi caneuon.
- y gallu i hwyluso a chydlynu perthnasau drwy gerddoriaeth o fewn y grwp.
- Y gallu i hwyluso taith gerddorol unigolion i ganfod eu llais cerddorol, a'r gallu i fynegi eu hunain a chael gwrandawriad.
- Sgiliau rhyngpersonol cryf fyddai'n sicrhau profiad positif i aelodau'r grŵp, ac yn cyfrannu tuag at yr elfen gymdeithasol sy'n hollbwysig i'r aelodau.
- Y gallu i arwain a/neu gydweithio yn ddwyieithog.
- Ymwybyddiaeth o ddiogelu a darparu awyrgylch cadarnhaol a chefnogol.

Cynnigir cyfleoedd i gerddorion dderbyn hyfforddiant a chael eu mentora ym maes cynnal sesiynau cerddoriaeth integredig a'u cefnogi fel rhan o bŵl o gerddorion ar draws Gogledd Cymru fydd yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau cerddorol er budd unigolion a grwpiau o fewn y gymuned.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn rhan o'r prosiect, anfonwch CV ynghyd ag ebost yn nodi :

- Os oes gennych ddi-ddordeb yn rôl arweinydd cerddorol neu gerddor arbennigol achlysurol, a'ch sgilau penodol.
- Eich profiadau perthnasol
- Enw a manylion cyswllt dau ganolwr.

Gyrrwch eich datganiadau o ddi-ddordeb at Mared Gwyn-Jones – mared@cgwm.org.uk **erbyn yr 11eg o Fawrth** os gwelwch yn dda.

Gan bod y prosiect yma yn cynnwys gweithio yn rheolaidd gydag oedolion bregus ac unigolion dan 18 oed bydd angen gwiriad DBS boddhaol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Meinir Llwyd Roberts neu Mared Gwyn-Jones ar 01286 685230.